# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Rhyl, Dydd Llun, 22 Mehefin 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Richard Davies, Huw Hilditch-Roberts, Geraint Lloyd-Williams, Merfyn Parry, Gareth Sandilands a David Simmons (Cadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Cynghorwyr Bobby Feeley – Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant
Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG); Rheolwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Arbennigol (AP) and Cydlynydd Archwilio (RhE)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Colin Hughes, Dewi Owens ac Arwel Roberts.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 ETHOL IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer aelod i wasanaethu fel is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2015/16. Enwebwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Richard Davies. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill ac felly:

***Penderfynwyd:*** ***- Penodi'r Cynghorydd Richard Davies fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2015/16.***

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 5 DARPARIAETH AR GYFER DEFNYDDWYR GWASANAETH PLANHIGFEYDD ABERCHWILER YN Y DYFODOL

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol ei adroddiad, y dosbarthwyd copi ohono cyn y cyfarfod. Amlinellodd gefndir i'r penderfyniad ym mis Rhagfyr 2014 i ddatgomisiynu gwasanaethau cyfleoedd gwaith a ddarperir ar

hyn o bryd gan asiantaeth ym Mhlanhigfeydd Aberchwiler, a cheisio gwasanaethau amgen ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mewn mannau eraill yn y sir.

Roedd manylion am aelodaeth y grŵp tasg a gorffen cyfleoedd gwaith a gafodd y dasg o archwilio'r gwasanaeth cyfleoedd gwaith a ddarperir gan y Cyngor ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, gweledigaeth Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol modern, a'r pwysau cyllidebol wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad.

Roedd yna ar hyn o bryd 27 unigolion yn mynychu planhigfeydd Aberchwiler, roedd y mwyafrif ohonynt yn mynychu gwasanaethau cyfleoedd gwaith eraill ar rai dyddiau o'r wythnos.  O'r 27 unigolyn hyn roedd 21 naill ai wedi cytuno i gynyddu nifer y dyddiau roeddent yn mynychu eu lleoliad(au) arall/eraill neu wedi darganfod lleoliadau amgen, tra bod chwech ar hyn o bryd yn mynychu'r sesiynau blasu mewn gwasanaethau amgen cyn penderfynu beth orau oedd yn bodloni eu hanghenion. Dim ond un defnyddiwr gwasanaeth nad oedd yn cymryd rhan yn y broses ar hyn o bryd.  Nid oedd y defnyddiwr gwasanaeth hwnnw wedi mynychu Planhigfeydd Aberchwiler yn rheolaidd.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cynghorodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- Roedd chwe defnyddiwr gwasanaeth ar fin cael eu trosglwyddo i Ganolfan Sgiliau Coetir ym Modfari, roedd nifer o'r unigolion hyn wedi nodi eu dymuniad i aros gyda'i gilydd a gweithio gyda'i gilydd.  Roedd y dymuniad hwn wedi cael ei barchu;
- Byddai'r gwasanaeth rheoli gardd presennol, a oedd yn darparu cyfleoedd gwaith ar gyfer 7 o unigolion yn cael eu trosglwyddo i'r Gerddi Botanegol yn y Rhyl.  Byddai trosglwyddo i'r Gerddi Botanegol hefyd yn lleihau amser teithio ar gyfer y rhan fwyaf o'r defnyddwyr gwasanaeth hyn;
- Byddai'r staff cefnogi yn yr holl leoliadau cyfleoedd gwaith amgen yn staff cyflogedig, nid gwirfoddolwyr.  Buasent hefyd yn cael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Amlinellwyd y costau dangosol y pen ar gyfer y gwasanaethau amgen yn yr adroddiad ac roedd y rhain yn sylweddol is na chostau'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael ar hyn o bryd gan yr asiantaeth staffio ym Mhlanhigfeydd Aberchwiler;
- Roedd yr atebion a drefnwyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth unigol yn cael eu hystyried fel trefniadau tymor canolig i'r tymor hir, yn amodol ar ddim newid yn eu hanghenion a bod y darparwr yn cydymffurfio â'r gofynion contract e.e. ansawdd, perfformiad a chostau.  Fodd bynnag, ni ellid rhoi sicrwydd pendant na fyddai pethau yn newid yn y tymor hir oherwydd cyfyngiadau cyllideb neu bolisïau'r Llywodraeth yn y dyfodol;
- Os, ar unrhyw adeg, byddai'r defnyddiwr gwasanaeth neu eu teulu/ gofalwyr yn anfodlon gyda'r gwasanaeth a ddarperir gallent ofyn am symud i gyfleuster cyfleoedd gwaith amgen;
- Roedd y gwasanaeth yn Aberchwiler yn wasanaeth a gomisiynwyd, ac nid oedd yn cael ei redeg gan y Cyngor ei hun.  O ganlyniad, roedd y grym i derfynu'r contract gyda'r darparwr a chanfod gwasanaethau amgen mewn mannau eraill ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth wedi'i ddirprwyo i'r

Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol yn unol â Chynllun Dirprwyo i Swyddogion y Cyngor;

- Unwaith roedd y penderfyniad wedi'i wneud a'i gyfleu i'r asiantaeth dan sylw, roedd y Tîm Anghenion Cymhleth yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyfle cynharaf, wedi dechrau gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr i ddod o hyd i wasanaethau amgen addas ar eu cyfer. Prif ffocws y gwaith hwn oedd i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth a sicrhau eu bod yn hapus yn eu hamgylchedd newydd;
- Hysbyswyd Cynnig, yr asiantaeth oedd yn gweithredu Planhigfeydd Aberchwiler, am fwriad y Cyngor yn gynnar fis Ionawr 2015 i derfynu'r contract o 30 Mehefin 2015. Cyfrifoldeb yr asiantaeth oedd hysbysu ei staff o'r newidiadau wedi hynny;
- O ran yr effaith o gau Planhigfeydd Aberchwiler ar ddefnyddwyr gwasanaeth, dim ond mewn dau achos yr oedd effaith negyddol wedi'i asesu. Roedd y Tîm Anghenion Cymhleth yn gweithio gyda'r unigolion, teuluoedd a gofalwyr hyn gyda'r nod o liniaru effaith negyddol;
- Cadarnhawyd na ddylai unrhyw unigolyn ddioddef caledi ariannol oherwydd y newid yn y ddarpariaeth;
- Cafodd pecynnau gofal ar gyfer pob unigolyn eu monitro, gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd – roedd hwn yn ofyniad statudol. Serch hynny, yn achos cyn-ddefnyddwyr gwasanaeth Aberchwiler, byddai ymweliadau monitro yn cael eu cynnal yn eu lleoliadau newydd bob mis eraill er mwyn sicrhau eu bod yn setlo a bod y lleoliad yn bodloni eu hanghenion unigolyn;
- Roedd defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn defnyddio cyfleoedd gwaith anableddau dysgu weithiau yn newid eu lleoliadau yn ôl dewis personol;
- Cadarnhawyd bod gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau addas o fewn y Tîm Anghenion Cymhleth wedi cynnal asesiadau effaith ar bob defnyddiwr gwasanaeth unigol yr effeithio arnynt gan ddatgomisiynu gwasanaethau yn Aberchwiler;
- Nododd Aelodau'r angen i wella cyfathrebu, yn enwedig gydag aelodau lleol, gan y gallai hynny helpu i chwantu pryderon ymhlith defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a chwalu'r sïon di-sail mewn cymunedau o ran newidiadau gwasanaeth fel yr un penodol yma;
- I hwyluso adleoliad y gwasanaeth rheoli gardd i'r Gerddi Botanegol yn y Rhyl, roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian mewn gosod offer trydanol ar y safle, ar y sail ei fod yn cael ei weld fel buddsoddiad tymor canolig o leiaf. Serch hynny, ni ellid rhoi unrhyw sicrwydd pendant yn yr hinsawdd ariannol presennol gwasanaethau cyhoeddus na fyddai'r newidiadau yn digwydd yn y dyfodol;
- Er bod cost y gofal a'r profiadau a ddarperir i'r defnyddwyr gwasanaeth yn bwysig, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a'r canlyniadau cysylltiedig ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth oedd y penderfynyddion pennaf gwerth am arian y gwasanaeth. Y prif benderfynydd oedd ansawdd bywyd pob unigolyn;
- Ni wnaed adolygiad pob defnyddiwr gwasanaeth unigol ar wahân. Yn ogystal ag ystyried mewnbwn y defnyddiwr gwasanaeth, roedd barn y darparwr gwasanaeth, teulu a gofalwyr y defnyddiwr gwasanaethau wedi eu hystyried wrth benderfynu ar y lleoliad cyfle gwaith amgen mwyaf addas ar

gyfer y defnyddiwr gwasanaeth. Roedd pob defnyddiwr gwasanaeth wedi cael cyfle i roi cynnig ar amrywiaeth o leoliadau amgen cyn y gofynnwyd iddynt ddewis eu ffafriaeth. Mewn rhai achosion roedd eiriolwr allanol wedi cael eu cysylltu gyda'r nod o sicrhau asesiad annibynnol;

- Byddai'r unigolion hynny ag anghenion cymhleth sydd angen cefnogaeth un i un ym Mhlanhigfeydd Aberchwiler yn parhau i dderbyn hynny yn eu lleoliad newydd os oes angen;
- Roedd y broses asesu anghenion ar gyfer person ag anableddau dysgu yn broses statudol sy'n rhaid i'r Cyngor ei dilyn yn ôl y gyfraith. Roedd Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn cynllun peilot Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull effeithiol o fesur canlyniadau;
- Roedd sicrwydd ychwanegol ar ansawdd y lleoliadau amgen ar gael ar ffurf adroddiadau'r rheoleiddiwr, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ar y gwasanaethau hynny;
- Roedd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech yn y blynyddoedd diwethaf i wneud Aberchwiler yn endid dilys, ond roedd hyn wedi profi'n anodd iawn;
- Roedd rhieni/gofalwyr wedi cael cyfle i ymweld â sefydliadau cyfleoedd gwaith i weld drostynt eu hunain y gwaith, gofal a goruchwyliaeth oedd ar gael. Fodd bynnag, nid oedd yr holl rieni/ gofalwyr yn derbyn y gwahoddiadau;
- Dim ond un gŵyn a gafwyd oddi wrth ddefnyddiwr gwasanaeth/ teulu defnyddiwr gwasanaeth/ gofalwr ynghylch y newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth. Roedd y gŵyn benodol wedi'i thrin a'i datrys i fodd had y defnyddiwr gwasanaeth a'u teulu/ gofalwr. Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion eraill a dderbyniwyd mewn perthynas â chau Phlanhigfeydd Aberchwiler wedi'u cyflwyno gan staff y Planhigfeydd neu aelodau o'r cyhoedd;
- Roedd y Cyngor ar hyn o bryd yn helpu i glirio hen safle'r Planhigfeydd i sicrhau ei fod yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r perchennog mewn cyflwr glân a thaclus i sicrhau nad oedd yn 'safle ddolur llygad'

Caniataodd y Cadeirydd i aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau. Mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, ymatebodd yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Swyddogion fel a ganlyn:

- cadarnhawyd na ymgynghorodd y Cyngor yn uniongyrchol gyda gweithwyr yn Aberchwiler ynghylch ei gynigion i ddatgomisiynu'r gwasanaeth gan nad oedd y staff yn staff y Cyngor Sir, roeddent yn cael eu cyflogi gan Cynnig a chyfrifoldeb Cynnig fyddai unrhyw ymgynghoriadau gyda gweithwyr;
- Cynghorwyd nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw bryderon diogelwch sy'n ymwneud â'r Ganolfan Sgiliau Coetir, gan fod yr holl wasanaethau amgen ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth Aberchwiler wedi cael asesiad risg. Roedd y Ganolfan Sgiliau Coetir hefyd yn cael ei defnyddio gan Addysg ac felly byddai'n destun asesiadau risg a DBS rheolaidd gan y Gwasanaeth hwnnw. Addawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i edrych eto ar y mater hwn;
- Cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod dull sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr gwasanaeth wedi'i fabwysiadu ar gyfer cynnal yr asesiad o anghenion defnyddwyr gwasanaeth Aberchwiler yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys y rhiant/ rhieni/ gofalwr/ gofalwyr ac roedd wedi'i

ymestyn i asesu eu hanghenion gofal cymdeithasol ehangach. Roedd pob defnyddiwr gwasanaeth, teulu/gofalwr unigol wedi cael gwybod bod gwasanaeth eirioli annibynnol ar gael a'u hawl i'w ddefnyddio

- Cadarnhawyd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod rheolau cenedlaethol a oedd yn llywodraethu comisiynu gwasanaethau – roedd Planhigfeydd Aberchwiler yn wasanaeth a gomisiynwyd – ac fel y cyfryw roedd angen i benderfyniadau o ran comisiynu/ datgomisiynu gwasanaethau o'r fath gael eu gwneud gan weithiwr proffesiynol sydd â chymwysterau addas;
- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod y Fforwm Anableddau Dysgu wedi cael gwybod am ddatblygiadau o ran Planhigfeydd Aberchwiler drwy gydol y broses. Gwasanaethodd cynrychiolwyr y Fforwm ar y Grŵp Tasg a Gorffen Cyfleoedd Gwaith, a oedd wedi cynnal adolygiad o Blanhigfeydd Aberchwiler fel rhan o'r adolygiad ehangach o Gyfleoedd Gwaith i bobl ag anawsterau dysgu ar draws y sir. Roedd Mencap, a fu'n gwasanaethu ar y Fforwm, wedi cychwyn a hwyluso'r digwyddiad 'Caffi Byd', lle'r oedd darparu gwasanaethau cyfleoedd gwaith yn y dyfodol wedi cael ei drafod gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Cydnabu swyddogion y pwyntiau a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol bod teuluoedd neu ofalwyr weithiau yn dawedog o ran cwyno am wasanaethau a ddarperir i bobl ddiamddiffyn, gan eu bod ofn y gallai'r defnyddwyr gwasanaeth dderbyn lefel gwasanaeth hyd yn oed gwaeth, neu i'r gwasanaeth gael ei dynnu'n ôl, o ganlyniad. Ar y sail hon cafodd safle Facebook 'Arbed Aberchwiler' ei sefydlu mewn ymgais i gael clywed lleisiau'r llai huawdl, gan fod teuluoedd a gofalwyr yn aml wedi ymlâdd ac nid oedd yn teimlo y gallant gwyno. Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn arf effeithiol a hygyrch ar gyfer aelodau o'r cyhoedd i leisio eu pryderon neu i rannu eu cwynion.

Pwysleisiodd swyddogion bod yr holl gwynion wedi cael eu trin yn gyfrinachol. Pe na bai'r cwynion yn cael eu rhannu, byddai'n llyffetheirio gallu'r Cyngor i wybod am y problemau er mwyn ceisio eu datrys a gwella gwasanaethau. Roedd nifer o ffyrdd y gallai cwynion neu bryderon gael eu codi h.y. naill ai'n uniongyrchol gyda'r Cyngor, drwy Gefnogwyr Gofalwyr y Tîm Anghenion Cymhleth neu drwy sefydliadau annibynnol fel y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GGOGDdC). Byddai pob cwyn unigol yn cael ei thrin a byddai ymateb yn cael ei anfon at yr achwynydd

Ar ddiwedd y drafodaeth cydnabu'r Aelodau bod gwersi i'w dysgu o'r broses o ddatgomisiynu gwasanaethau ym Mhlanhigfeydd Aberchwiler. Roedd cyfathrebu yn allweddol i bob agwedd ar waith y Cyngor. Gallai cyfathrebu effeithiol ac amserol gyda rhanddeiliaid ac aelodau lleol leddfu pryderon a chwalu mythau. Roedd mynegiant pryderon yn seiliedig ar ffeithiau yn bwysig iawn gan y gallai pryderon a godwyd ar achlust neu ffeithiau hanner cywir y potensial i greu amgyffrediad ffug a dwysáu pryderon, yn enwedig ymhlith preswylwyr diamddiffyn. Roedd yn bwysig bod y negeseuon cywir yn cael eu cyfleu i'r bobl iawn ar yr adeg gywir, yn enwedig pan oeddent yn cynnwys materion emosiynol. O ganlyniad:

***Penderfynwyd: -*** *yn amodol ar y wybodaeth a ddarparwyd a'r sylwadau uchod -*

*(a) nodi'r canlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol ar gyfer yr unigolion dan sylw;*

*(b) bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn hydref 2015 gyda chasgliadau'r adolygiad i fodlonrwydd cyn-ddefnyddwyr gwasanaeth hen Blanhigfeydd Aberchwiler ar eu lleoliadau cyfleoedd gwaith newydd, y canlyniadau ar eu cyfer hwy a'u teuluoedd/gofalwyr;*

*(c) bod yr adroddiad yn manylu ar y gwersi a ddysgwyd gan y Cyngor yn ystod ac ar ôl y gwaith datgomisiynu; a*

*(d) bod y canfyddiadau yn adroddiadau arolygu diweddaraf AGGCC ar y sefydliadau cyfleoedd gwaith hynny hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad (os nad oedd adroddiadau diweddaraf y rheoleiddiwr ar gael eto ar gyfer y sefydliadau hynny, yna dylid cynnwys arwydd o bryd y disgwylir iddynt fod ar gael)*

Daeth y cyfarfod i ben am 11:10am